Talu trethi i Cesar

Mathew 22: 15-22; Marc 12: 13-17; Luc 20: 20-26

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Mathew 22: 15-22; Marc 12: 13-17; Luc 20: 20-26		
1	Un diwrnod roedd Iesu'n dysgu'r bobl ac yn cyhoeddi'r newyddion da yn y deml.		
2	Roedd y dyrfa'n gwrando'n astud arno.		
3	Roedd y prif offeiriaid yn gobeithio dal Iesu'n dweud rhywbeth o'i le, ac wedyn bydden nhw'n gallu dod â chyhuddiad yn ei erbyn o flaen y llywodraethwr Rhufeinig.		

4	Roedden nhw'n cynllwynio sut i'w gornelu a'i gael i ddweud rhywbeth fyddai'n ei gael i drwbwl. Dyma nhw'n anfon rhai o'u disgyblion ato gyda rhai o gefnogwyr Herod.	
5	Dyma nhw'n mynd ato a dweud, “Athro, dŷn ni'n gwybod dy fod di'n onest. Dwyt ti ddim yn un i gael dy ddylanwadu gan bobl eraill, dim ots pwy ydyn nhw. Rwyt ti'n dysgu ffordd Duw, ac yn glynu wrth yr hyn sy'n wir.	
6	Felly dywed wrthon ni — Ydy'n iawn i ni dalu trethi i lywodraeth Rhufain? Ddylen ni eu talu nhw neu ddim?”	
7	Roedden nhw eisiau dal Iesu a'i dwyllo. Petai o'n dweud y dylai bawb dalu trethi i Gesar yna fyddai'r dyrfa'n troi yn ei erbyn. Ond, petai o'n dweud i beidio talu trethi, yna fyddai'r Rhufeiniaid yn ei gondemnio.	
8	Ond roedd Iesu'n gwybod mai drwg oedden nhw'n ei fwriadu, ac meddai wrthyn nhw, “Dych chi mor ddauwynebog! Pam dych chi'n ceisio nal i? Dangoswch i mi ddarn arian sy'n cael ei ddefnyddio i dalu'r dreth.”	

9	Dyma nhw'n dod â darn arian iddo.	
10	“Llun pwy ydy hwn? Am bwy mae'r arysgrif yma'n sôn?” gofynnodd Iesu. “Cesar,” medden nhw	
11	Felly meddai Iesu, “Rhowch beth sydd biau Cesar i Cesar, a'r hyn biau Duw i Dduw.”	
12	Roedden nhw wedi eu syfrdanu pan glywon nhw ei ateb. Felly dyma nhw'n ei adael a mynd i ffwrdd.	
13	Ond, roedden nhw'n fwy penderfynol fyth o'i ddal a'i ladd.	

Cyfieithwyd gan
www.beibl.net